4.4.5 Bydd hysbysiadau yn y wasg yn ymddangos yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg eu hiaith, ac yn uniaith Gymraeg mewn cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith.

(I'w weithredu erbyn 1/7/06)

4.4.6 Bydd NAAPS Cymru yn ceisio cynyddu ei ddefnydd o Bapurau Bro fel cyfrwng i ledaenu newyddion lleol am y Gymdeithas.

(Erbyn Awst 2006)

4.5 Deunydd cyhoeddusrwydd, marchnata ac arddangos

4.5.1 Bydd deunydd a gynhyrchir i'w ddefnyddio yng Nghymru yn ddwyieithog pryd bynnag y bydd hynny'n ymarferol. Bydd hyn yn cynnwys deunydd cyhoeddusrwydd megis baneri, balwŷns, llenyddiaeth a nwyddau hyrwyddo.

(I'w weithredu pan fydd angen cyflenwadau newydd)

4.5.2 Dan amgylchiadau neilltuol, gellid cynhyrchu deunydd Cymraeg a Saesneg ar wahân. Cynhyrchir y rhain i'r un safon â'i gilydd.

(Mewn grym ac ar waith)

4.5.3 Gellir cynhyrchu deunydd ychwanegol uniaith Gymraeg at ddibenion penodol.

(Mewn grym ac ar waith)

4.5.4 Bydd is-benawdau'n ddwyieithog, hyd yn oed pan fydd y deunydd dilynol yn uniaith.

(Mewn grym ac ar waith)

4.5.5 Cynhelir cyfweiliadau arolwg yn y Gymraeg neu yn Saesneg, yn ôl dewis iaith y person a gyfwelir.

(Mewn grym ac ar waith)

4.5.6 O ran recriwtio, os yw'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol i'r swydd, yna bydd yr hysbyseb yn Gymraeg, gydag esboniad cryno yn Saesneg. Os yw'r Gymraeg yn ddymunol, yna bydd yr hysbyseb yn ddwyieithog.

(Mewn grym ac ar waith)

4.5.7 Mae NAAPS Cymru yn anelu at gynyddu ei defnydd o Bapurau Bro ar gyfer hysbysebu'n lleol.

(Mewn grym ac ar waith)

5. Gweithredu a monitro'r Cynllun

5.1 Staffio a recriwtio

5.1.1 Mae NAAPS Cymru angen staff, aelodau a gwirfoddolwyr dwyieithog er mwyn cyrraedd y nod yn 2.2 uchod. Mae NAAPS felly yn cydnabod fod y gallu i siarad Cymraeg yn fedr gwerthfawr a chymwys.

5.1.2. Bydd NAAPS Cymru yn ymdrechu i sicrhau fod ganddynt ddigon o staff a gwirfoddolwyr dwyieithog i ddarparu gwasanaeth priodol i'w aelodau ac i'r cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru, lle fo hyn yn rhesymol ymarferol a phriodol.

5.1.3. Fe fydd NAAPS Cymru yn adnabod y swyddi hynny lle'r mae'r Gymraeg yn hanfodol a lle mae'n ddymunol. Bydd yr ymarfer yma'n cael ei wneud mewn ffordd wrthrychol. Y meini prawf i ddynodi pob swydd fydd yr arbenigedd fydd ei angen i'r swydd, y lefel o gysylltiad gyda'r cyhoedd yng Nghymru ac os yw'r swydd i'w lleoli mewn ardal arbennig a bydd angen ystyried asesiad o natur ieithyddol yr ardal. Bydd unrhyw ddynodiadau o'r fath wedyn yn cael eu cynnwys mewn swydd ddisgrifiadau a manylion y person.

4.4.5 Notices in the press shall appear bilingually in English language publications and in Welsh only in Welsh language publications.

(Implement by 1/7/06)

4.4.6 NAAPS Cymru will strive to increase its use of Papurau Bro for publicising local organisation news.

(By August 2006)

4.5 Publicity, advertising, marketing and exhibition material

4.5.1 Material produced for use in Wales will be bilingual wherever practicable. This will include publicity materials such as banners, balloons, literature and promotional goods.

(Implement when new stocks required)

4.5.2 Exceptionally, separate Welsh and English material may be produced. These will be produced to the same standard.

(Implemented and ongoing)

4.5.3 Additional Welsh only material may be produced for specific purposes.

(Implemented and ongoing)

4.5.4 Straplines will be bilingual even where the following material is monolingual.

(Implemented and ongoing)

4.5.5 Survey interviews will be carried out in Welsh or English as chosen by the interviewee.

(Implemented and ongoing)

4.5.6 In respect of recruitment, if the ability to speak Welsh is essential then the advertisement will be in Welsh with a brief explanation in English. If Welsh is desirable the advertisement will be bilingual.

(Implemented and ongoing)

4.5.7 NAAPS Cymru will strive to increase its use of Papurau Bro for local advertising.

(Implemented and ongoing)

5. Implementing and monitoring the Scheme

5.1 Staffing and recruitment

5.1.1 NAAPS Cymru needs bilingual staff, members and volunteers in order to achieve the aim noted in 2.2 above. NAAPS therefore recognises that the ability to speak Welsh is a valuable and legitimate skill.

5.1.2. NAAPS Cymru will strive to ensure that it has sufficient bilingual staff and volunteers to provide a proper service to its members and to the wider public in Wales where this is reasonably practical and appropriate.

5.1.3. NAAPS Cymru will identify those posts where Welsh is essential and where it is desirable. This exercise will be carried out in an objective manner. The criteria for designation will be the expertise needed for the post, the level of contact with the public in Wales and, if the post is to be located in a particular area, an assessment of the linguistic nature of the area. Any such designations will then be included in job descriptions and person specifications.

5.1.4. I'r swyddi hynny lle mae'r Gymraeg yn ddymunol ond ddim yn hanfodol, bydd ceisiadau gan ddysgwyr Cymraeg yn cael eu derbyn os ydynt yn barod i ddangos ymrwymiad i ddysgu Cymraeg i safon sy'n briodol i ofynion y swydd. Oni bai fod gan yr ymgeisydd llwyddiannus y medr ieithyddol eisioes bydd ef/hi yn cael ei benodi ar yr amod ei fod ef/hi yn cyrraedd y safon briodol fel a ddiffinir gan NAAPS yn ystod yr amser a nodir yn y contract mewn ymgynghoriad gyda thiwtor y Gymraeg. Bydd hyn yn amod y contract cyflogaeth.

5.1.5. Darperir hyfforddiant a chefnogaeth gyda defnyddio'r iaith Gymraeg i staff a gwirfoddolwyr sydd eisiau ymestyn eu defnydd o'r iaith o fewn fframwaith Cynllun hyfforddi NAAPS. Bydd NAAPS Cymru yn cymryd rhan gyda pholisïau mentora iaith lle fo'n bosibl.

(I'w weithredu pan fo swyddfa NAAPS Cymru wedi ei sefydlu)

5.1.6. Bydd unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn cael eu monitro â'u trin. (Bydd yn rhan o'r drefn adrodd blynyddol i NAAPS, Y Cynulliad Cenedlaethol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

5.1.7. Os bu trafferthion gyda recriwtio siaradwr Cymraeg i swydd lle fo'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, efallai y bydd angen ystyried penodi rhywun nad yw'n gallu siarad Cymraeg. Yn yr achosion hyn, yr arfer fydd un ai:

- Hysbysebu'r swydd unwaith eto gan nodi y bydd rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael eu hystyried ar yr amod eu bod yn cytuno i ddysgu Cymraeg i safon benodol sy'n gyson gyda gofynion y swydd, mewn amser penodol. Mae'r cyfrifoldeb o sicrhau fod yr un a benodwyd yn ymaelodi ar y cwrs cynharaf posibl yn gorwedd gyda rheolwr atebol y sawl a benodwyd, a dylai hefyd wneud yn siwr fod yr unigolyn yn cael amser i ddilyn y cwrs; neu
- Hysbysebu swydd dros-dro gan adolygu'r sefyllfa er mwyn cyfarfod â'r angen mewn ffordd arall e.e. drwy ail-drefnu'r gwasanaeth; neu
- Ail-hysbysebu ar ôl amser penodol, neu asesu'r rhagolygon o hyfforddi'r unigolyn a benodwyd dros dro.

5.1.8. Lle bo siaradwr Cymraeg ar gael ond fod angen sgiliau ychwanegol i gwrdd â gofynion y swydd, bydd ymarfer tebyg yn cael ei ddilyn – penodi'r siaradwr Cymraeg gyda ymrwymiad eu bod yn cwrdd â'r safon medruswydd gofynnol mewn amser penodol.

(Mewn grym ac ar waith)

5.2 **Dysgu Cymraeg**

5.2.1 Mae NAAPS Cymru yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ymdrechion ei staff a gwirfoddolwyr i ddysgu Cymraeg. Bydd staff a gwirfoddolwyr sy'n dymuno dysgu Cymraeg yn cael cefnogaeth briodol pryd bynnag y bydd adnoddau yn caniatáu hynny, yn unol â chynllun hyfforddi NAAPS.

(Iw weithredu yn dilyn sefydlu swyddfa Naaps yng Nghymru)

5.2.2 Pan fydd cefnogaeth ar gael i ddysgu Cymraeg, rhoddir blaenoriaeth i staff a gwirfoddolwyr sy'n delio'n aml gydag aelodau sy'n siarad Cymraeg a chydag aelodau Cymraeg eu hiaith o'r cyhoedd, neu staff a gwirfoddolwyr y mae eu swyddogaeth yn golygu defnydd proffil uchel o'r Gymraeg yn gyhoeddus ar ran NAAPS.

(Mewn grym ac ar waith)

5.1.4. For posts where Welsh is desirable but not essential, applications will be accepted from learners who are prepared to show a commitment to learn Welsh to the standard appropriate for the requirements of the post. Unless the successful applicant already has the necessary linguistic ability he or she will be appointed on condition that he or she reaches the appropriate standard as defined by NAAPS within the time stated in the contract in consultation with a Welsh tutor. This will be the condition of an employment contract.

5.1.5. Training and support in the use of the Welsh language will be provided to staff and volunteers who want to extend their use of the language within the framework of NAAPS' Training Policy. NAAPS Cymru will participate in language mentoring policies where possible.

(To be implemented when NAAPS Cymru office is established).

5.1.6. Gaps in Welsh medium provision will be monitored and addressed. (Will form part of annual reporting procedure to NAAPS, Assembly for Wales and Welsh Language Board).

5.1.7. If there have been difficulties in recruiting a Welsh speaker to a post for which the ability to speak Welsh is an essential requirement, it may be necessary to consider appointing someone who cannot speak Welsh. In such cases, the practice will be either to:

- Advertise again and state that non-Welsh speakers will be considered on the condition that they undertake to learn Welsh to a specified standard consistent with the requirements of the post, within a stated time. Responsibility for ensuring that the appointee enrolls on the earliest available course lies with the appointee's line manager, who should also ensure that the individual is given time to follow the course; or
- Advertise a temporary appointment, and review in order to meet the need in another way e.g. by re-arranging the service; or
- Re-advertise after a specified time, or assess the prospects for training of the person appointed temporarily.

5.1.8. Where a Welsh speaker is available but needs additional skills to meet the requirements of the post, a similar practice will be followed – appoint the Welsh speaker with an undertaking that they meet the required standard of competence within a stated time.

(Implemented and ongoing)

5.2 **Learning Welsh**

5.2.1 NAAPS Cymru recognises and values the efforts of its staff and schemes to learn Welsh. Staff and schemes wishing to promote the learning of Welsh and will be given appropriate support as and when resources allow, consistent with NAAPS' Training Policy.

(To be implemented when NAAPS Cymru office is established)

5.2.2 When support is available for learning Welsh, priority will be given to staff and volunteers who have frequent dealings with Welsh speaking members and with the Welsh speaking public, or whose role requires the high profile use of Welsh in public on behalf of NAAPS.

(Implemented)

5.3. **Hyfforddiant Galwedigaethol**

5.3.1 Mae NAAPS Cymru yn cydnabod bod angen hyfforddi rhai aelodau staff a gwirfoddolwyr trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

(I'w weithredu ar ôl adnabod angen)

5.3.2 Bydd NAAPS Cymru yn asesu'r angen i hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn manteisio ar hyfforddiant sydd eisoes ar gael neu (dan amgylchiadau neilltuol) yn comisiynu hyfforddiant o'r fath ei hun.

(Defnyddir cyfleusterau lleol pan fydd angen)

5.3.3 Bydd yr asesiad a'r ddarpariaeth hon yn rhan o hyfforddiant prif-ffrwd NAAPS Cymru ar gyfer eu staff presennol ac yn rhan anhepgor o gyfnod cynefino staff newydd.

(Mewn grym ac ar waith)

5.4 **Trefniadau gweinyddol**

5.4.1 Cymeradwywyd y Cynllun Iaith Gymraeg gan NAAPS ar 6/9/06 ac fe'i gweithredir gyda'i hawdurdod llwyr.

5.4.2 Bydd NAAPS Cymru yn sicrhau bod ei gweinyddiaeth fewnol yn cefnogi gweithrediad y cynllun pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl. Datblygir ei threfniadau cynllunio a chyllid i adlewyrchu hyn. Nod NAAPS yw normaleiddio'r prosesau cynllunio a gwario yng nghyswllt yr iaith Gymraeg fel bo gwaith NAAPS yng Nghymru yn digwydd yn briodol ac yn naturiol yn y ddwy iaith swyddogol.

5.4.3 Cadeirydd NAAPS Cymru fydd yn gyfrifol am weithrediad cyffredinol y Cynllun yng Nghymru ac am gydlynu gweithgarwch perthnasol NAAPS yng Nghymru a thu hwnt. Y Cadeirydd hefyd fydd yn gyfrifol am adrodd yn ôl am unrhyw gynnydd a wnaed o ran gweithredu'r Cynllun. Dylai unrhyw un a hoffai gael rhagor o wybodaeth a chynghor ynghylch y Cynllun hwn gysylltu â Chadeirydd Naaps Cymru.

5.5. **Cyllid**

Bydd NAAPS yn gwneud pob ymdrech posib i sicrhau cyllid digonol i weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg.

5.6 **Monitro'r Cynllun**

Bydd NAAPS yn paratoi adroddiadau mewnol ar unrhyw gynnydd yng ngweithrediad y Cynllun, gan eu cyflwyno i Fwrdd NAAPS yn chwarterol.

Bydd Bwrdd NAAPS yn derbyn adroddiad blynyddol ar gydymffurfiaid â'r Cynllun fydd yn cyflawni'r amcanion sy'n dilyn:

- Mesur a ydy NAAPS yn cydymffurfio â'r Cynllun;
- Mesur a ydy'r Cynllun yn cael ei reoli mewn dull addas;
- Dadansoddi ei berfformiad ar sail adrannol a chorfforaethol er mwyn sicrhau cysondeb;
- Asesu ac ystyried themâu allweddol yng ngweithrediad y Cynllun;
- Clustnodi unrhyw wendidau sylfaenol a rhoi cynllun gweithredu yn ei le sy'n cynnwys amserlen ar gyfer delio â'r gwendidau hynny.

Bydd copi o'r adroddiad yn cael ei anfon at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

5.3. **Vocational Training**

5.3.1. NAAPS Cymru recognises the need to train some of its staff and volunteers through the medium of Welsh.

(Implement when identified)

5.3.2. NAAPS Cymru will assess Welsh medium training needs and will access training already available or (exceptionally) commission such training itself.

(Use of locally based facilities will be implemented when necessary)

5.3.3. This assessment and provision will be part of NAAPS' Wales's mainstream training for existing staff and will be an integral part of the induction of new staff.

(Implemented)

5.4 **Administrative arrangements**

5.4.1 The Welsh Language Scheme was approved by NAAPS on 6/9/06 and is to be implemented with its full authority.

5.4.2 NAAPS Cymru will ensure that its internal administration supports the implementation of the Scheme wherever practicable. Its planning and financial arrangements will be developed to reflect this. NAAPS' aim is to normalise planning and spending in respect of the Welsh language so that its operation in Wales is properly and naturally delivered in both official languages.

5.4.3 NAAPS' Wales Chair will be responsible for the overall implementation of the Scheme in Wales and the co-ordination of the relevant NAAPS' activity in Wales and outside Wales. The Chair will also be responsible for reporting on progress in implementation. For any further information and advice on this Scheme, the contact person is to be the Chair of NAAPS Cymru.

5.5. **Funding**

NAAPS will do its utmost to seek sufficient funding to support its implementation of the Welsh Language Scheme.

5.6 **Monitoring the Scheme**

NAAPS will prepare internal progress reports regarding the implementation of the Scheme and submit them to the NAAPS Board every quarter.

The NAAPS Board will receive an annual compliance report that will achieve the following aims:

- Measure whether NAAPS is complying with the Scheme;
- Measure if the Scheme is being appropriately managed;
- Analyse its performance on a departmental and corporate basis in order to ensure consistency;
- Assess and consider key themes in scheme implementation;
- Recognise any fundamental weaknesses and set up an action plan which will include a timetable to deal with them.

A copy of this report will be sent to the Welsh Language Board.

Yn ystod trydydd flwyddyn gweithredu'r Cynllun, bydd NAAPS yn paratoi adroddiad gwerthuso cynhwysfawr fydd yn asesu a chloriannu'r dulliau o weithredu'r Cynllun ers ei ddechrau. Bydd yr adroddiad hwn yn:

- i) cynnig gorolwg a dadansoddiad yn ôl thema o'r cydymffurfio a'r perfformio yn ystod tair blynedd gynta'r Cynllun, gan wneud hynny o ddau safbwynt – darparu gwasanaeth a rheoli'r Cynllun;
- ii) amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf, yn ogystal â pharatoi amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu mesurau'r Cynllun.

Bryd hynny, bydd NAAPS yn addasu a diweddarau'r Cynllun Iaith Gymraeg.

5.7 **Cwynion**

5.7.1 Delir gyda phob cwyn ynghylch gweithredu'r cynllun trwy ddefnyddio trefn gwyno bresennol NAAPS.

5.7.2 Mae gan NAAPS hefyd ddiddordeb mewn materion sy'n achosi pryder er eu bod efallai y tu allan i gategoriâu cwynion penodol ffurfiol. Bydd yn rhoi ystyriaeth briodol i achosion pryder o'r fath, er nad ydynt, o reidrwydd, yn gwynion ffurfiol. Bydd gwaith y dyfodol yn seiliedig ar ystyriaethau o'r fath.

5.8 **Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad**

Cyhoeddir gwybodaeth am berfformiad a bydd ar gael i aelodau ac aelodau'r cyhoedd. Gall yr wybodaeth honno fod ar ffurf crynodeb o'r adroddiadau llawn a gynhyrchwyd at ddibenion mewnol. Bydd NAAPS Cymru yn esbonio'r rhesymau dros fethu â chwrdd â thargedau yn ogystal â'r camau a gymerir i gywiro'r sefyllfa.

5.9 **Rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun**

5.9.1 Bydd aelodau NAAPS Cymru, ei staff ac eraill sy'n ymwneud â'i gweithgareddau yn cael gwybod am y cynllun hwn, a bydd copïau ar gael iddyn ar safle we Naaps Cymru iddynt.

(1/7/06)

5.9.2 Bydd gwybodaeth a hyfforddiant ynghylch y cynllun yn rhan anhepgor o gyfnod cynefino aelodau staff newydd, a chynlluniau newydd.

5.10 **Partneriaethau**

Mae NAAPS yn gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff cyhoeddus, mudiadau o'r sector wirfoddol, ac asiantaethau eraill. Bydd NAAPS yn gweithio ar nifer o lefelau wrth gydweithio gydag eraill:

- i) Os mai NAAPS ydy arweinydd strategol ac ariannol unrhyw bartneriaeth, bydd yn sicrhau fod darpariaeth gwasanaethau i'r cyhoedd yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.
- ii) Pan fo NAAPS yn ymuno â phartneriaeth sy'n cael ei arwain gan gorff gwahanol, bydd cyfraniad NAAPS i'r bartneriaeth yn cydymffurfio gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg, a bydd yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio hefyd.
- iii) Pan fo NAAPS yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm hwnnw i fabwysiadu polisi dwyieithog. Pan fydd NAAPS yn cynrychioli'r consortiwm yn gyhoeddus, bydd yn ymddwyn mewn dull sy'n cydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg.
- iv) Pan fo NAAPS yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn holi darpar bartneriaid am eu cynlluniau iaith Gymraeg, polisiâu iaith neu eu dulliau o weithredu'n ddwyieithog. O fewn unrhyw bartneriaeth, bydd NAAPS yn cynnig cyngor a chefnogaeth i'r partneriaid eraill.

In the third year of the Scheme's implementation NAAPS will prepare a comprehensive evaluation report that will assess and evaluate performance in implementing the Scheme since its inception. This report will:

- i) provide an overview and thematic analysis of compliance and performance over the first three years of the Scheme, from two perspectives – service delivery and scheme management;
- ii) outline priorities for the following three years, together with a revised timetable for implementing the measures in the Scheme.

At this time NAAPS will revise and update the Welsh Language Scheme.

5.7 **Complaints**

5.7.1 All complaints regarding the implementation of the Scheme will be dealt with using NAAPS' current complaint procedure.

5.7.2 NAAPS is also interested in causes for concern that might not fall into the category of formal specific complaints. It will give proper consideration to such causes for concern even though they might not be formal complaints. These considerations will inform its future work.

5.8 **Publishing information about performance**

Information on performance will be published and will be accessible to the members and to the public. That information may take the form of an abridged version of the full reports produced for internal purposes. NAAPS Cymru will explain the reasons for any failures to meet targets and also the steps being taken to rectify matters.

5.9 **Publicising the Scheme**

5.9.1 Existing members of NAAPS Cymru, its staff and others engaged in its activities would be made aware of this Scheme and copies will be available to them. A version will be published on the NAAPS Website.

(By 1/7/06)

5.9.2 Information and training regarding the Scheme will be integral to induction for new members of staff and schemes.

5.10 **Partnerships**

NAAPS works in partnership with public bodies, organisations from the voluntary sector and other agencies. NAAPS works on many levels when working with others:

- i) When NAAPS is the strategic and financial leader within a partnership, it will ensure that the public service provision is compliant with the Welsh Language Scheme.
- ii) When NAAPS joins a partnership in which another body is leading, NAAPS' input to the partnership will comply with the Welsh Language Scheme and NAAPS will encourage other parties to comply.
- iii) When NAAPS is a partner in a consortium, it will encourage the consortium to adopt a bilingual policy. When acting publicly in the name of the consortium, NAAPS will act in accordance with its Welsh Language Scheme.
- iv) When NAAPS joins or forms a partnership, it will ask prospective partners about their Welsh Language Schemes, Language Policies or the means by which they will operate bilingually. Within any partnership, NAAPS will offer advice and support to the other partner organisations.

NAAPS CYMRU Cynllun Iaith Gymraeg

Cynllun Gweithredu 2006/07

	Gweithredu	Dyddiad	Cyflawnwyd
1	Cymeradwyo'r Cynllun gan Fwrdd Ymddiriedolwyr NAAPS UK	Ebrill 05	12/4/05
2	Cymeradwyo'r Cynllun gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg	Awst 06	
3	Cynhyrchu, cyhoeddi a chylchredeg copi dwyieithog o'r Cynllun Iaith Gymraeg i'r aelodau yng Nghymru	Mehefin 06	
4	Cyflwyno cais i Lywodraeth Cynulliad Cymru am sefydlu swyddfa Gymreig i NAAPS yng Nghymru (gan gynnwys swyddog datblygu ar gyfer NAAPS Cymru)	Ionawr 06	
5	Gwneud arolwg newydd o siaradwyr Cymraeg o fewn NAAPS CYMRU er mwyn llunio rhestr o bobl sy'n gallu ymdrin â materion drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg	Groffennaf 06 (Gwnaed drwy NAAPS Cymru)	
6	Trafod gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn darganfod ffynonellau cyllid ar gyfer gwasanaeth cyfieithu	Awst 06	
7	Cynhyrchu fersiynau dwyieithog o bolisïau NAAPS ac o'r llawlyfr gweithredu	Gorffennaf 06 (hyn yn dibynnu ar allu cael cyllid i dalu am wasanaeth cyfieithu)	
8	Cynhyrchu adran ddwyieithog o wefan NAAPS UK	Awst 06	
9	Datblygu cronfa ddata yn dynodi dewis iaith	Awst 06	
10	Gweithredu rhaglen barhaus o godi ymwybyddiaeth yn NAAPS drwyddo draw	Hydref 06	
11	Cynhyrchu papur pennawd, tafenni a llenyddiaeth arall am NAAPS CYMRU yn ddwyieithog	Medi 06	
12	Adolygu'r Cynllun Iaith a'r Cynllun Gweithredu	Chwefror 07	
13	Sicrhau cyfieithu cofnodion pwyllgor	Medi 06	

NAAPS CYMRU Welsh Language Scheme
Action Plan 2006/07

	Action	Date	Achieved
1	Scheme approval by NAAPS UK Board of Trustees	Apr 05	
2	Scheme approval by Welsh Language Board	Aug 06	
3	Produce, publish and circulate bilingual Welsh Language Scheme to members in Wales	Jun 06	
4	Submit bid to Welsh Assembly Government for establishment of Welsh office for NAAPS in Wales (to include development officer for NAAPS Cymru)	Jan 06	
5	Undertake new survey of Welsh speakers within NAAPS CYMRU to establish a list of people who are able to deal with matters in the medium of Welsh including radio & TV interviews etc	July 06 (Done through NAAPS Cymru)	
6	Liase with Welsh Language Board to establish funding streams for translation services	Aug 05	
7	Produce bilingual NAAPS Policies and Procedures manual	Jul 06 (dependent upon access to funding to pay for translation service)	
8	Produce bilingual section of NAAPS UK website	Aug 06	
9	Develop a database of language preference & ascertain language choice on membership/renewals	Aug 06	
10	Implement ongoing programme of awareness-raising throughout NAAPS	Oct 06	
11	Produce bilingual letterheads, leaflets and other literature about NAAPS CYMRU	Sep 06	
12	Review the scheme and action plan	Feb 07	
13	Ensure translation of Committee minutes	Sep 06	

